CYNGOR CYMUNED BODORGAN

Cofnodion cyfarfod llawn o'r Cyngor Cymuned a gynhaliwyd yng Nghanolfan Cymunedol Bodorgan ar 17 MEDI 2019.

1 PRESENNOL:

Cynghorwyr Mr Dafydd Jones (Cadeirydd), Mr Tim Owen, Ms Sharon Barton, Mr Myfyr Davies, Mr Andrew Hughes, Mr Gwilym Looms, Mr Gareth Evans, Mr Selwyn Williams, Cynghorydd Sirol Mr Bryan Owen a Mr J Alun Foulkes (Clerc).

2 YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwr Mr Jeff Hughes & Cynghorydd Sirol Mr Peter Rogers.

3 CROESO

3.1 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

4 DATGAN DIDDORDEB

4.1 Datganodd Cynghorydd Andrew Hughes diddordeb personol yng nghais cynllunio Cefn Eithin, Malltraeth gan ei fod yn gwrthwynebu i'r cais fel tenant tir Pen Parc, Malltraeth (drws nesaf). Roedd y diddordeb personol yn un a oedd yn rhagfarnu ac felly gadewodd y cyfarfod pan oedd yr eitem yn cael ei drafod.

5 CYWIRO & CYMERADWYO COFNODION CYFARFODYDD.

5.1 Cyfarfod Arbennig 24/6/2019 – cynnig (AH), eilio (GL) ac arwyddo ei bod yn rhai cywir.

5.2 Cyfarfod Misol 16/7/2019 – cynnig (AH), eilio (GL) ei bod yn rhai cywir ar ol cywiro cofnod 12.5, lle dylir fod wedi nodi Ysgol **'Santes Dwynwen'** ac nid Ysgol 'Santes Fair'.

6 MATERION YN CODI.

6.1 **Archwiliad Allanol** - dywedodd y Clerc fod dogfennau yr Archwiliad Blynyddol wedi anfon at Cwmni BDO a gobeithio y bydd adroddiad erbyn y cyfarfod nesaf.

6.2 **Carafan, Swn y Mor** – dywedodd y Cynghorydd Bryan Owen y bydd yn mynd ati er mwyn datrys y sefyllfa ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

6.3 **Safle Maes Glas, Bethel** – dim mwy i adrodd ar hyn o bryd.

6.4 **Llinellau Melyn ger y Meddygfa** – Cynghorydd Mr Bryan Owen i ddilyn i fyny ac adrodd yn nol i'r cyfarfod nesaf.

6.5 **Lamp Stryd, Maes Parcio, Morawelon, Malltraeth** – nodwyd fod y mater yma yn nhwylo Cynghorydd Sirol, Mr Peter Rogers.

6.6 **Arolwg Trefniadau Etholiadol yr Ynys** – adroddiad oddiwrth Cynghorydd Sirol Bryan Owen fod newidiadau wedi ei argymellu ac UN ohonynt bydd symud ward Llangristiolus i fod yn rhan o Cefni. Disgwylir adroddiad llawn ac ymgynhoriad llawn oddiwrth y Cyngor Sir i ddilyn unwaith y bydd y broses wedi ei cwblhau.

6.7 **Adroddiad Ysgol Santes Dwynwen** – cafwyd adroddiad sefyllfa diweddaraf oddiwrth Cynghorydd Tim Owen. Nodwyd fod Cynghorydd Andrew Hughes wedi ei benodi ar y corff newydd. Nodwyd fod 9 wobr i blant Ysgol Bodorgan wedi ei wneud mewn noson wobrwyo yn Llangefni yn ddiweddar yn dilyn adroddiad Iestyn. Cafwyd trafodaeth cyffredinol i ddilyn ynglyn a sefyllfa Moderneiddio Ysgolion Mon.

7 MATERION CYLLID

7.1 Cytunwyd gyda rhestr taliadau a derbyniadau y Cyngor am fisoedd Gorffennaf a Awst 2019 yn unfrydol ac fe arwyddodd y cadeirydd y ddogfen cysoni yn ogystal a fantolen banc fel cadarnhad.

8 ADRODDIAD CAIS CYNLLUNIO DIWYGIEDIG & DILEU AMODAU - CAE EITHIN, MALLTRAETH.

8.1 Cytuno gan cyfeirio at sylwadau blaenorol ac nodwyd fod y cais cynllunio wedi ei alw i mewn gan y Cynghorwyr Sirol.

9 CYFARFOD GYDA PWYLLGOR SAFONAU Y CYNGOR SIR.

9.1 Dywedodd y Cadeirydd fod trefniadau mewn llaw i gyfarfod gyda aelodau y Pwyllgor yn Mis Hydref 2019 ac adrodd yn nol i'r Cyngor Cymuned yn y cyfarfod nesaf.

10 ADRODDIAD CANOLFAN BODORGAN.

10.1 Dywedodd y Cadeirydd fod ganddo fawr i adrodd heblaw ei fod wedi siarad gyda Mr Dylan Edwards o'r Cyngor Sir ac disgwylir arwyddo dogfen newydd trosglwyddo asedau ac fe nodwyd gyda siom fawr eto nad oedd yr Adran Cyfreithiol wedi ymateb i Gwmni Ashworth. Nodwyd fod difrodi i'r Ganolfan wedi digwydd yn ystod yr Hâf ac wedi cysylltu gyda'r Cyngor Sir er mwyn atgyweirio – nodwyd siom mawr ymateb yr Heddlu i'r digwyddiadau yma. Yn olaf, dywedodd fod Pwyllgor y Ganolfan wedi ei drefnu mis Hydref er mwyn trafod argymellion dyfodol y safle ac efallai y bydd rhaid sefydlu Is-Bwyllgor er mwyn symud unrhyw gynllun ymlaen.

11 GOHEBIAETH.

11.1 **Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref & Chymuned** – er gwybodaeth yn unig.

11.2 **Un Llais Cymru** – er gwybodaeth yn unig.

12. CAU Y CYFARFOD – Clowyd y cyfarfod am 7:55yh – dyddiad cyfarfod nesaf 18/11/2019.

Arwyddo.....Cadeirydd.....Dyddiad.